# amserbeibl

Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Enw




DARLLENWCH
Genesis 32: 1-32



ADNOD ALLWEDDOL
Genesis 32: 11

## Astudiaeth 2 Jacob a'i Deulu – Ym Mheniel



**Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen –** Ystyriwch hefyd brofiadau Moses, Eseia a Paul yn: Exodus 3: 1-22 a 4: 1-17 Eseia 6: 1-13 Actau 9: 1-19

Weithiau mae rhyw argyfwng yn codi a dydyn ni ddim yn gwybod sut i ymateb. Dyna a ddigwyddodd i Jacob. Roedd wedi gadael Haran ac roedd ar ei ffordd nôl i Ganaan. Gwyddai y byddai'n rhaid iddo gwrdd â'i frawd, Esau, cyn hir. Roedd yn poeni'n ofnadwy am hyn.

**C** **Darllenwch Genesis 27: 41 ac esbonio YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN pam, hyd yn oed ar ôl 20 mlynedd, bod ar Jacob ofn cwrdd ag Esau.** 1

Ond, fel y gwelwn ym mhennod 32 roedd Jacob yn cael ei annog i gario mlaen.

**C** **Beth wnaeth ei atgoffa bod Duw gydag ef?** 1

**C** **Llanwch y geiriau sydd ar goll yn y paragraff isod i weld beth sy'n digwydd nesaf.** 4

Anfonodd Jacob negeswyr at Esau i ddweud, "Mae Jacob, dy .................................. ,

yn dweud iddo fod yn aros gyda Laban a bod ganddo ...................................... ac ........................... ."

Daeth y negeswyr yn ôl a dweud bod Esau'n dod â ................................ o ddynion

Roedd ofn ar Jacob pan glywodd y newyddion. Yn ôl adnodau 7-12 gwnaeth ddau beth:-

**C** **1. Gwnaeth GYNLLUN. Ysgrifennwch frawddeg i ddweud beth oedd y cynllun.** 1

**C** **2. GWEDDÏODD ac, yn ei weddi, atgoffodd Dduw o ddau addewid yr oedd wedi'u gwneud flynyddoedd yn gynt. Ysgrifennwch yr addewidion yn y swigod siarad.** 2 2

**C** **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a THANLINELLU y cais arbennig a wnaeth Jacob i Dduw.** 2

Gwnaeth Jacob y ddau beth yn y drefn anghywir. Pan fyddwn mewn argyfwng, dylem weddïo yn gyntaf a chynllunio wedyn! Efallai ei fod yn teimlo bod arno angen cwrdd â Duw eto a chael rhagor o brawf y byddai'n ei helpu.

**C Rhowch ✔ neu ✗ i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir ai peidio:-**

| | |
|---|---|
| Treuliodd Jacob y noson gyda'i deulu. | |
| Bu 'dyn' yn ymgodymu gyda Jacob trwy'r nos. | |
| Penderfynodd Jacob ffoi oddi wrth Esau. | |
| Aeth Jacob ymlaen i gwrdd ag Esau ar ei ben ei hunan. | |

4



Cafodd Jacob brofiad rhyfedd ond pwysig. Roedd yn siwr ei fod wedi cwrdd â Duw! Roedd hynny'n bwysicach na chwrdd ag Esau!

**C Ysgrifennwch y frawddeg o'r Darlleniad o'r Beibl sy'n dweud bod Jacob yn gwybod ei fod wedi cwrdd â Duw.**

1

Ar ôl blynyddoedd o dwyll a mynd ei ffordd ei hunan yn hytrach na ffordd Duw, daeth Jacob at groesffordd ac, o'r diwedd, roedd yn barod i roi ei fywyd yn llwyr i Dduw.

**C Beth ddigwyddodd o ganlyniad i'r cyfarfod hwn? Llanwch y bylchau:-**

2

.................................... Duw ef (adnod 29).
Rhoddodd Duw ................................. newydd iddo (adnod 28).

Roedd clun Jacob wedi dod o'i lle. Byddai'n gloff am weddill ei oes ac ni fyddai'n hawdd iddo ffoi oddi wrth Dduw eto.
Pan fyddwn ni'n wynebu anawsterau, mae angen i ninnau gyfarfod â Duw. Mae hyn yn golygu treulio amser ar ein pen ein hunain gydag Ef, yn gweddïo ac yn meddwl. Fel hyn, cawn fendith Duw. Hefyd, gallwn gael gwared â rhai o'r pethau drwg yn ein bywydau, os ydym yn barod i adael i Dduw reoli ein bywydau.

cyfanswm